

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cynllun Strategol

Drafft

Dogfen

ymgynggori

# Ynglŷn â'r ddogfen hon

Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2019 i 2022 erbyn Ebrill 2019. Bydd hwn yn nodi ein Nodau Strategol, ein Nodau Blaenoriaethol a'n gweithgareddau arfaethedig, ac amserlen. Rydym yn adolygu'r Cynllun o leiaf unwaith bob tair blynedd ac yn ymgynghori ar ein cynigion cyn eu cwblhau. Y ddogfen hon yw ein Cynllun Strategol drafft ar gyfer ymgynghori ac rydym yn neilltuo! yn ceisio barn ar:

- y Nodau Blaenoriaethol y dylem eu blaenoriaethu yn ein cynllun nesaf, ac
- ein hymagwedd tuag at gyflawni newid.

Byddwn yn ystyried y safbwyntiau hyn wrth gwblhau ein Cynllun Strategol newydd.

Yn yr Alban, rydym yn rhannu ein mandad hawliau dynol â Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC). Rydym yn cydweithio ac yn gweithio'n agos â'r SHRC wrth ystyried unrhyw waith hawliau dynol rydym yn bwriadu ei symud ymlaen yn yr Alban, a byddwn yn ymgynghori â hwy ar y cynigion a nodir yn y Cynllun drafft hwn. Yn benodol, byddai arnom angen iddynt gytuno i ymgymryd ag unrhyw waith hawliau dynol ar faterion a ddatganolwyd i Senedd yr Alban.

# Ein Cynllun Strategol drafft

## Ein gweledigaeth

---

Ein pwrpas yw sefyll o blaid rhyddid, tosturi a chyfiawnder yn ystod amseroedd o newid. Rydym yn ei wneud trwy hyrwyddo a chynnal cydraddoldeb a hawliau dynol ledled Lloegr, yr Alban a Chymru.

Mae ein gwaith yn cael ei ysgogi gan gred syml; os yw pawb yn cael cyfle teg mewn bywyd, rydym i gyd yn ffynnu.

Yn anad dim, rydym yma i sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn gweithio'n effeithiol ym Mhrydain i helpu pobl i fyw'n dda gyda'i gilydd, gan wneud bywyd yn fwy diogel, hapusach ac yn fwy ffyniannus i bawb.

## Yr hyn a wnawn

---

Wrth i ni wynebu dyfodol lle bydd newid cyflymach a dyfnach, credwn fod hawliau dynol a chydaddoldeb yn bwysicach nag erioed. Maent yn egwyddorion sydd â gwreiddiau dwfn, wedi'u hadeiladu ar werthoedd y gallwn oll eu cydnabod - fel meddylfryd agored, parch at urddas dynol a bod yn deg a gweddus i'n gilydd. A'n gwaith ni yw roi'r egwyddorion pwysig hyn ar waith, fel bod pawb yn y wlad yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu hawliau, gellir trin pawb yn deg, ag urddas a pharch, a chaiff pawb gyfle i fyw bywyd cyflawn.

## Y berthynas rhwng ein Cynllun Strategol a'n Cynlluniau Busnes

---

Bydd ein Cynllun Strategol yn nodi'r Nodau Blaenoriaethol lefel uchel y byddwn yn gweithio tuag atynt, ynghyd â'n heffaith arfaethedig. Bydd hyn, yn ei dro, yn llunio ein Cynlluniau Busnes blynyddol, a fydd yn nodi'r newidiadau penodol rydym yn ceisio'u gwneud trwy ein gwaith, y gweithgareddau y byddwn yn eu cynnal i gyflawni'r newidiadau hynny, a sut y byddwn yn mesur ein llwyddiant mewn blwyddyn benodol.

## Ffocws ein gwaith

---

Mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn cyffwrdd â bron pob agwedd ar fywyd - gallai rhywun brofi gwahaniaethu neu gamdriniaeth hawliau dynol yn unrhyw le o'u gweithle i'w siop leol, o ysgol eu plentyn i feddygfa eu meddyg teulu. Mae'r rhestr o faterion y gallem weithio arnynt yn hir ac ni fydd blaenoriaethu'r rhain yn hawdd, ond mae'n hanfodol. Felly bydd rhaid inni wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'n ffocws er mwyn sicrhau newid parhaol.

Mae gennym ystod eang o randdeiliaid - gan gynnwys busnesau, cyrff anllywodraethol sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol penodol, a chyrff cyhoeddus - ac maent wedi dweud wrthym yn gyson eu bod am i ni ganolbwyntio ar nifer llai o faterion yn ystod y tymor hwy. Rydym yn sicr y gallwn gyflawni mwy o effaith os gwnawn hynny. Bydd hyn yn ein galluogi i edrych yn ddyfnach ar bob mater, gan ddefnyddio ystod lawn ein pwerau cydymffurfio a gorfodi i fynd i'r afael â'r holl ffactorau sy'n cyfrannu at broblem benodol. Bydd hefyd yn caniatáu i ni neilltuo mwy o adnoddau i bob un o'n Nodau Blaenoriaethol.

O fewn y Cynllun drafft hwn, rydym yn nodi tri Nod Strategol cyffredinol y credwn eu bod yn sail i'n gweledigaeth a'n pwrpas, ac a fydd yn llywio ffurf ein gwaith dros y blynyddoedd i ddod. Bydd y rhain yn ffurfio sail i'n gwaith yn ystod y Cynllun Strategol hwn, gan sicrhau bod popeth a wnawn yn canolbwyntio ar sicrhau bod Prydain Fawr yn wlad lle mae pawb yn cael cyfle teg.

Ein tri Nod Strategol yw:

### **1. Hyrwyddo'r amgylchiadau i gael Prydain fwy cyfartal sy'n parchu hawliau**

Rydym am i egwyddorion rhyddid, tosturi a chyfiawnder fod yn realiti ym Mhrydain Fawr. Gall ein cymdeithas wireddu'r weledigaeth hon dim ond â'r darnau jig-so cywir yn eu lle - amddiffyniadau cyfreithiol cryf, y gallu i orfodi'r amddiffyniadau hynny, dealltwriaeth o ble mae hawliau pobl yn cael eu torri, democratiaeth iach lle mae preifatrwydd a rhyddid i leferu yn cael eu diogelu, a chysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

Rydym ar groesffordd ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain. Colli Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yw'r newid cyfansoddiadol mawr cyntaf sy'n deillio o Brexit, ac mae cwestiynau hanfodol ynghylch sut y caiff cydraddoldeb a hawliau dynol eu diogelu orau yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Nid oes llawer o werth ar hawliau cyfreithiol oni bai ein bod yn gallu ceisio cyfiawnder pan fyddant yn cael eu torri, ond mae ein 'A yw Prydain Fawrach? 2018' yn dod i'r casgliad ei fod wedi bod yn gynyddol anodd cael mynediad at gynrychiolaeth a gwneud iawn yn llysoedd

Prydain. Mae gennym rôl unigryw i'w chwarae wrth oruchwylio digonolrwydd y fframwaith cyfreithiol sy'n gwarchod cydraddoldeb a hawliau dynol, a gallu pobl i weithredu pan fyddant wedi dioddef gwahaniaethu neu gamdriniaeth hawliau dynol.

Er bod tystiolaeth wael ar 'beth sy'n gweithio' i fynd i'r afael â rhagfarn ym Mhrydain, mae ein hymchwil yn awgrymu y gall lleoliadau addysgol helpu i newid agweddau pobl ifanc. Byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu ein dealltwriaeth o'r dulliau gorau o newid agweddau rhagfarnllyd, a gwthio am fwy o weithredu i wneud hynny yn y system addysg, o ystyried yr effaith y gallai hyn ei chael ar bobl drwy gydol eu hoes.

Mae technoleg yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn ein bywydau, â llawer o'n rhyngweithiadau personol a gwleidyddol yn digwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mae llawer o wasanaethau pwysig, megis bancio, budd-daliadau a chyfiawnder, yn cael eu darparu ar-lein erbyn hyn. Er bod mynediad at wasanaethau digidol wedi gwella'n sylweddol, gan gynnwys pobl anabl a phobl hŷn, mae'n wir nad yw un o bob pump o'r rhai hynny yn y grwpiau hyn yn defnyddio'r rhyngwrwyd. Mae technoleg newydd hefyd yn cyflwyno cwestiynau ynghylch sut i warchod preifatrwydd, rhyddid i lefaru a rhyddid rhag niwed. Rydym yn glir y bydd angen i'r fframwaith polisi a chyfreithiol ddal i esblygu er mwyn iddo fynd i'r afael â goblygiadau arwyddocaol ym maes hawliau dynol a chydaddoldeb yn yr oes ddigidol.

Bydd y Nod Strategol hwn yn sicrhau system gref i amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol.

## **2. Dileu'r rhwystrau i gyfle, fel bod cyfleoedd bywyd pobl yn cael eu trawsnewid**

Credwn, os bydd pawb yn cael cyfle teg, y byddwn ni i gyd yn ffynnu. Mae 'A yw Prydain yn Decach? 2018' yn ei wneud yn glir ein bod ni fel cenedl yn wynebu eiliad ddiffiniol: ar draws sawl maes o fywyd mae gormod o bobl sydd ar eu colled ac sy'n teimlo eu bod wedi'i hanghofio neu eu bod wedi'u gadael ar ôl.

Mae tlodi cynyddol yn parhau i ysgogi canlyniadau gwael mewn sawl maes o fywyd, yn effeithio'n arbennig ar iechyd, addysg a safonau byw pobl, felly mae'n rhaid inni gymryd camau brys i atal anfantais rhag ymwreiddio i genedlaethau'r dyfodol. Ond nid yw'r gwasanaethau sydd wedi'u bwriadu i helpu pobl ym Mhrydain i oresgyn effaith anfantais economaidd-gymdeithasol a darparu llwybrau allan o dlodi ar gael yn gyfartal i bawb.

Mae rhwystrau sylweddol i rai grwpiau sy'n ceisio cael mynediad i ofal iechyd, addysg a thai priodol. Mae pobl anabl yn adrodd am brinder difrifol o dai hygyrch, ac mae plant anabl yn llawer mwy tebygol na phlant nad ydynt yn anabl o brofi

gwaharddiadau ysgol. Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol, brofi anawsterau i gael gofal iechyd, ac yn aml mae ganddynt safonau isel o dai. Ledled Prydain mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol yn profi gwahaniaethu wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, gyda rhai pobl drawsryweddol yng Nghymru a Lloegr yn methu â chyrchu gwasanaethau arbenigol. Mae pryderon hefyd bod mewnfudwyr neu geiswyr lloches yn wynebu rhwystrau i dai a gofal iechyd.

Pan fydd cludiant cyhoeddus yn hygyrch ac yn briodol, gall ganiatáu i bobl gymryd rhan mewn sawl maes o fywyd. Fodd bynnag, mae ymdrechion yn y maes hwn, yn arbennig o ran gwella cludiant cyhoeddus i bobl anabl, yn anghyson. Mae problemau hefyd o ran hygyrchedd seilwaith a gwybodaeth.

Mae anghydraddoldeb sylweddol yn y gweithle o hyd. Mae pobl anabl a menywod yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau cyflog isel nag eraill, ac mae tystiolaeth bod aflonyddu rhywiol a bwlio yn y gwaith yn gyffredin. Mae cyflogaeth ansefydlog, â'i effaith niweidiol ar ansawdd swyddi a safonau byw, wedi cynyddu ac yn arbennig o debygol o effeithio ar rai grwpiau, gan gynnwys pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig penodol a Moslemiaid.

Bydd y Nod Strategol hwn yn darparu cymorth i grwpiau o bobl sy'n wynebu anfantais a gwahaniaethu mewn meysydd hanfodol o'u bywydau.

### **3. Diogelu hawliau pobl yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed**

Mae pobl yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed yn agored i achosion posibl o gam-drin hawliau dynol, yn ei gael yn anodd mynnu eu hawliau yn y system gyfreithiol ac nid oes ganddynt bŵer mewn prosesau gwleidyddol. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y deddfau, polisïau ac arferion sy'n effeithio arnynt yn diogelu eu hawliau dynol.

Mae ein hagolygiad 'A yw Prydain yn Decach? 2018' wedi dangos, yng Nghymru a Lloegr, bod amgylchiadau mewn lleoliadau cadw, gan gynnwys carchardai oedolion a lleoliadau cadw ar gyfer mewnfudwyr, wedi dirywio. Mae'r DU yn parhau i fod yr unig wlad yn yr UE heb unrhyw derfyn amser ar gyfer cadw mewnfudwyr.

Mae trais rhywiol a domestig yn bryder cynyddol hefyd, yn arbennig o ystyried y gostyngiad yn y gwasanaethau cymorth arbenigol sydd ar gael ar gyfer goroeswyr cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr.

Bydd y Nod Strategol hwn yn amddiffyn hawliau pobl sy'n cael eu methu gan y system.

## Ein Nodau Blaenoriaethol

---

Wrth ddewis Nodau Blaenoriaethol, rydym wedi archwilio'r dystiolaeth o'n hadolygiad 'A yw Prydain yn Decach? 2018', gan edrych ar beth mae hyn yn ei ddweud wrthym yw'r materion cydraddoldeb a hawliau dynol mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar bobl ym Mhrydain, yn ogystal ag argymhellion cyrff hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig. Rydym hefyd wedi edrych ar beth a allai ddod yn bwysicach yn y dyfodol agos, gan wrando ar sefydliadau sy'n gweithio ar lawr gwlad a chynnal gweithgareddau sganio gorwelion.

Rydym wedi blaenoriaethu materion y gallwn eu trin yn fwyaf effeithiol trwy ddefnyddio ein hamrywiaeth unigryw o bwerau. Rydym hefyd wedi nodi lle y gallwn gryfhau gwaith pobl eraill trwy gyfrannu at ein harbenigedd penodol. Rydym wedi asesu lle rydym yn fwyaf tebygol o gael yr effaith fwyaf. Rydym wedi dadansoddi perthnasedd ein Nodau Blaenoriaethol i nodweddion gwarchoddedig penodol, gan gynnwys nodi anfanteision croestoriadol - er enghraifft, mae menywod anabl yn fwy tebygol o brofi trais rhywiol neu ymosodiad rhywiol a cham-drin domestig na merched nad ydynt yn anabl.

Mae'r Nodau Blaenoriaethol a ddewiswyd gennym ar y sail hon wedi'u hadlewyrchu yn y tabl yn yr Atodiad isod. Gwyddom, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, y bydd angen i ni leihau nifer y rhain ymhellach os ydym yn mynd i sicrhau'r effaith fwyaf posibl mewn perthynas ag unrhyw un ohonynt, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael i ni. Felly, rydym yn gofyn i ymgynghoreion asesu ble a sut maen nhw'n meddwl y dylem ganolbwyntio ein hadnoddau.

### Ymateb i ddatblygiadau newydd

Mae'r Cynllun Strategol drafft hwn yn nodi'r meysydd rydym yn bwriadu gweithio ynddynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni barhau i fod yn ddigon egniol i weithredu'n gyflym mewn ymateb i brif faterion cydraddoldeb a hawliau dynol y dydd. Heb y gallu hwnnw, ni allem fod wedi ymateb i'r mudiad #MeToo neu effeithiau posibl Brexit ar ein fframwaith cyfreithiol. Ein hegwyddorion cyffredinol ar gyfer y math hwn o waith 'adweithiol' fydd blaenoriaethu:

- achosion cyfreithiol newydd sy'n gysylltiedig â'r Nodau Blaenoriaethol a nodwyd gennym yn y Cynllun hwn
- themâu sy'n dod i'r amlwg sy'n galw am ein hymateb fel corff cydraddoldeb a hawliau dynol cenedlaethol, megis y drasiedi Grenfell, lle mae ein pwerau unigryw yn caniatáu i ni gael effaith ac ychwanegu gwerth at waith pobl eraill

- digwyddiadau sy'n bygwth tanseilio hanfod y gyfraith a'r egwyddorion rydym yn sefyll drostynt

## Sut rydym yn gweithio

Mae gennym set unigryw o offer i'n helpu i gyflawni ein Nodau Strategol; o ddefnyddio'r deddfau hawliau dynol a chydaddoldeb presennol a'n pwerau cyfreithiol i amddiffyn pobl rhag triniaeth annheg neu anghyfartal, i newid polisi ac ymarfer trwy ein gwaith ymchwil arbenigol a'n sylfaen dystiolaeth, ein harbenigedd polisi a'n cyfathrebu.

Rydym wedi meddwl yn hir ac yn galed am y ffordd orau i ni ddefnyddio'r offer hyn i gael yr effaith fwyaf a chyflawni ein gweledigaeth o fyd lle mae pawb yn cael cyfle teg mewn bywyd. Mae trosi'r weledigaeth hon i'n gweithrediadau o ddydd i ddydd yn rhan graidd o'n Cynllun Strategol newydd.

Byddwn yn cymryd ymagwedd dair-elfen tuag at gyflawni newid:

- Byddwn yn defnyddio ein pwerau dylanwadu, cydymffurfio a gorfodi i sicrhau bod **y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau** ynghylch y deddfau, polisiau ac arferion sy'n effeithio ar ein bywydau beunyddiol yn parchu'r deddfau ac egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol. Gallwn roi tystiolaeth, cyngor, cyfarwyddyd a chymorth iddynt. Gallwn eu hannog trwy gyfathrebiadau wedi'u targedu a'n hadroddiadau ar gynnydd i'r Cenhedloedd Unedig. Gallwn ddefnyddio ein pwerau gorfodi i alw arnynt i weithredu.
- Byddwn yn **paratoi a chefnogi unigolion** i geisio iawndal pan fyddant yn profi gwahaniaethu, neu doriad ar eu hawliau dynol. Byddwn yn darparu gwybodaeth glir i'w helpu i fynnu eu hawliau, yn ogystal â chynnig cymorth uniongyrchol i bobl sy'n dwyn achosion. Byddwn hefyd yn chefnogi'r rhai hynny sy'n darparu cyngor cyfreithiol i unigolion, gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth, cyngor ac adnoddau sydd arnynt eu hangen i helpu pobl mewn perthynas â chydaddoldeb a hawliau dynol.
- Byddwn yn chefnogi mecanweithiau goruchwyllo presennol, **fel rheoleiddwyr, arolygiaethau neu ombwdsmyr** i ymgorffori cydraddoldeb a hawliau dynol yn y safonau maent yn eu gosod, yn y modd y maent yn asesu cydymffurfiaeth a sut maent yn mynd i'r afael â phroblemau mewn sector penodol. Mae gan y cyrff hyn rôl bwysig i'w chwarae wrth ysgogi newid ar lawer o'r materion sy'n bwysig i ni oherwydd y mynediad a dylanwad sydd ganddynt dros sector. Gallant hefyd gynghori gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch y deddfau a'r polisiau sy'n llywodraethu sector. Trwy annog y sefydliadau hyn i ystyried cydraddoldeb a



hawliau dynol yn y safonau maent yn eu gosod ar gyfer eu sector, gallwn gael effaith lawer mwy eang a hirdymor.

## **Beth fyddwn ni'n ei wneud yn wahanol yn y cyfnod Cynllun Strategol newydd hwn?**

---

Rhywfaint o'r hyn a wnawn yn y Cynllun Strategol hwn fydd yr hyn rydym eisoes yn ei wneud ond â ffocws ychwanegol, a bydd peth ohono'n newydd ac yn wahanol. Rydym yn nodi'r hyn a fydd yn wahanol isod:

### **Defnyddio ein pwerau unigryw**

Byddwch yn gweld newid sylweddol yn ein cydymffurfio a'n gorfodi pan fyddwn yn dechrau gweithredu ein Cynllun Strategol newydd yn 2019. Rydym wedi dewis Nodau Blaenoriaethol y gellir mynd i'r afael â nhw orau â'n pwerau unigryw, felly byddwn yn defnyddio'r rhain yn amlach ac yn neilltuo adnoddau ac arweinyddiaeth briodol i'r gwaith hwn. Byddwn yn cymryd camau gweithredu strategol, cadarn, â'r nod o sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Er mwyn cael rhwystr effeithiol, mae'n bwysig bod troseddwr posibl yn wynebu siawns realistig o gael eu herio. Â hyn mewn golwg, rydym hefyd wedi nodi o fewn ein Nodau Blaenoriaethol y meysydd bywyd hynny lle mae unigolion yn wynebu rhwystrau mor ddifrifol ynghylch cyrchu cyfiawnder bod ein rôl wrth sefyll drostynt ac wrth herio troseddwr yn arbennig o bwysig. Byddwn yn mynd allan ar lawr gwlad i glywed am eu profiadau ac yn nodi achosion yn rhagweithiol i gefnogi er mwyn sicrhau bod y meysydd bywyd hynny yn teimlo fel gofod rheoledig.

### **Blaenoriaethu ein gwaith**

Byddwn yn canolbwyntio ar y materion a nodir yn ein Nodau Blaenoriaethol. Rydym am flaenoriaethu'r rhai hynny sy'n gweithredu fel porth i gyfleoedd eraill (addysg, cludiant, technoleg), materion lle mae rhwystrau penodol i allu unigolyn i geisio iawndal heb ein cymorth (addysg, gwasanaethau, nawdd cymdeithasol, cludiant) a materion y gwyddom eu bod yn debygol o ddod yn fwyfwy pwysig yn ystod oes y Cynllun Strategol. Er enghraifft, mae technoleg yn trawsnewid ein bywydau ac felly mae'n flaenoriaeth i ni, ac mae cyffredinrwydd atherion yn ymwneud â phobl hŷn a phobl anabl (cludiant, technoleg, tai, gwaith, nawdd cymdeithasol a thriniaeth mewn sefydliadau) oherwydd ein poblogaeth sy'n heneiddio.

## **Mesur effaith**

Rydym yn rhoi effaith wrth wraidd ein proses gynllunio. Ym mhob maes gwaith, byddwn yn pennu ar yr cychwyn yr effaith rydym yn bwriadu ei chael, fel y gallwn ni gael ein dal i gyfrif yn haws am gyflawni hyn. Bydd ein model effaith yn mynnu ein bod yn newid rydym yn ceisio'i gyflawni, beth fyddwn ni'n ei wneud i gyrraedd yno a sut y byddwn ni'n gwybod a ydym wedi llwyddo.

## **Gweithio ar faterion dros gyfnod hwy**

Mae llawer o'n gwaith yn ymwneud â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi'u hymwreiddio, neu agweddau hirsefydlog. Gwyddom na fydd trwsio'r problemau hyn yn gyflym. Felly, rydym wedi nodi ymagwedd rydym yn ystyried y bydd yn sefyll prawf amser yn ein Cynllun drafft. Er y byddwn yn adolygu ein Cynllun bob tair blynedd, nid ydym yn rhagweld newidiadau sylweddol i'n Nodau Strategol, ein hymagwedd at gyflawni newid neu lawer o'n Nodau Blaenoriaethol.

# Atodiad 1: Nodau Strategol, Nodau Blaenoriaethol a gweithgareddau

Mae ein hymgyngoriad yn gofyn i sefydliadau ac unigolion asesu lle maen nhw'n meddwl y dylem ganolbwyntio ein hadnoddau, gan gofio lle gall ein pwerau unigryw gael yr effaith fwyaf a'r angen i gydbwyso ein gwaith ar draws cydraddoldeb a hawliau dynol, ac i wella bywyd ar gyfer gwahanol grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Yn yr Alban, rydym yn rhannu ein mandad hawliau dynol â Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC). Rydym yn cydweithio ac yn gweithio'n agos â'r SHRC wrth ystyried unrhyw waith hawliau dynol rydym yn bwriadu ei symud ymlaen yn yr Alban a byddwn yn ymgynghori â hwy ar y Nodau Blaenoriaethol a nodir yn y Cynllun drafft hwn. Yn benodol, byddai angen i ni gael eu cytundeb i ymgymryd ag unrhyw waith hawliau dynol ar faterion a ddatganolwyd i Senedd yr Alban.

Isod rydym wedi nodi'r mathau o weithgareddau y credwn y byddant yn effeithiol wrth gyflawni'r effaith rydym yn dymuno ei chael. Byddwn yn datblygu ein strategaethau ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad.

# Nod Strategol 1: Hyrwyddo'r amgylchiadau i gael Prydain fwy cyfartal sy'n parchu hawliau

## Nod Blaenoriaeth 1

Mae pobl yn gallu ceisio iawndal yn well pan fyddant yn cael cam a gall pobl gael treial teg yn y system gyfiawnder troseddol

### Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn

- Ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi i herio rheolau sy'n rheoleiddio cymorth cyfreithiol, gweithdrefnau llys a chwythu'r chwiban sy'n tansellio mynediad i gyfiawnder/atebolrwydd.
- Cynghori seneddau a llywodraethau ar sut y dylid newid rheolau sy'n rheoleiddio cymorth cyfreithiol, llysoedd, chwythu'r chwiban a mecanweithiau anghydfod amgen (megis gwasanaethau cwynion a redir gan ombwdsmyr) i hwyluso mynediad i gyfiawnder ac atebolrwydd.
- Cynnal ymchwiliad i ddatgelu profiadau pobl anabl o'r system gyfiawnder troseddol a gweithgarwch dylanwadu, cydymffurfio a gorfodi i herio rhwystrau i gyfiawnder ar gyfer pobl anabl.
- Cefnogi'r rhai hynny sy'n darparu cyngor mewn perthynas â meysydd cyfraith lle mae rhwystrau sylweddol i gael mynediad i gyfiawnder.
- Darparu cyngor ac offer i fecanweithiau goruchwyllo/anghydfod amgen i'w helpu i fynd i'r afael â chydaddoldeb/hawliau dynol yn well yn eu gwaith.
- Cyfarparu a chefnogi unigolion i geisio iawndal pan fyddau hawliau'n cael eu torri.

### Sut y byddwn ni'n gwybod bod ein strategaeth yn effeithiol <sup>1</sup>

- Mae'r rheolau sy'n llywodraethu cymorth cyfreithiol, llysoedd, chwythu chwiban a/neu fecanweithiau goruchwyllo yn hwyluso mynediad at gyfiawnder yn fwy effeithiol.
- Caiff rhwystrau i gyfiawnder sy'n effeithio ar bobl anabl yn y system gyfiawnder troseddol eu herio yn llwyddiannus.
- Mae mecanweithiau goruchwyllo/anghydfod amgen yn ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn y safonau maent yn eu gweithredu.

---

<sup>1</sup> Byddwn yn nodi mesurau effaith ar gyfer pob gweithgaredd yn ein Cynllun Busnes.

- Mae darparwyr cyngor wedi'u paratoi'n well i gynghori ar achosion, a dygir mwy o achosion yn llwyddiannus mewn perthynas â meysydd bywyd lle mae diffyg mynediad i gyfiawnder.

## Nod Blaenoriaeth 2

Mae ffyrdd o fynd i'r afael â rhagfarn yn cael eu deall yn well ac mae cysylltiadau da yn cael eu hyrwyddo, yn arbennig drwy'r system addysg

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn**

- Ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi i ddylanwadu ar reolau sy'n llywodraethu derbyniadau a rhwystrau i gynhwysiant.
- Cyfarparu a chefnogi unigolion i geisio iawndal pan fyddant yn dioddef gwahaniaethu mewn gwaharddiadau/derbyniadau/cynhwysiant.
- Dylanwadu ar fecanweithiau goruchwyllo a gosod safonau i hyrwyddo ymarfer yn y system addysg sy'n mynd i'r afael â rhagfarn, yn hyrwyddo cysylltiadau da ac yn cynyddu cynhwysiant.
- Dylanwadu ar y cwricwlwm i hyrwyddo addysgu ac ymagwedd ysgol gyfan sy'n hyrwyddo cysylltiadau da.
- Cynnal ymchwil i ddeall beth sy'n gweithio i fynd i'r afael â rhagfarn, a lledaenu'r dysgu hwnnw.
- Cynnal ymchwiliad i ganfod i ba raddau mae llwybrau i iawndal ar gael, ac a ydynt yn hygyrch ac yn effeithiol, i staff a myfyrwyr prifysgol sy'n profi aflonyddu hiliol.

### **Sut y byddwn ni'n gwybod bod ein strategaeth yn effeithiol**

- Mae'r rheolau sy'n ymwneud â derbyniadau yn hyrwyddo poblogaethau amrywiol yn well mewn ysgolion, ac mae rhwystrau i gynhwysiant yn cael eu dileu.
- Mae ymarfer mewn perthynas â gwaharddiadau/derbyniadau/cynhwysiant yn gwella.
- Mae cyrff sy'n gosod safonau mewn ysgolion yn adlewyrchu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol yn eu gwaith.
- Mae'r cwricwlwm mewn ysgolion yn hyrwyddo cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau yn well.
- Mae gwell dealltwriaeth o sut i fynd i'r afael â rhagfarn.
- Mae systemau sy'n caniatáu i ffyrwyr a staff sydd wedi dioddef aflonyddu i geisio iawndal yn cael eu gwella.

### Nod Blaenoriaeth 3

Mae technolegau a gwasanaethau digidol newydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol

#### **Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn**

- Ymgymryd â gweithgareddau cydymffurfio a gorfodi i herio deddfau, polisi ac ymarfer mewn perthynas â thechnolegau newydd sy'n tanseilio hawliau dynol.
- Dylanwadu ar fecanweithiau goruchwyllo a gosod safonau i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn eu safonau.
- Ymgymryd â gweithgareddau cydymffurfio a gorfodi i herio gwasanaethau digidol sy'n creu rhwystrau anghyfiawn i gyfranogiad neu sy'n tanseilio hawliau dynol.
- Cynghori darparwyr swyddogaethau cyhoeddus ar oblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ynghylch y digidoleiddio arfaethedig o wasanaethau.

#### **Sut y byddwn ni'n gwybod bod ein strategaeth yn effeithiol**

- Mae deddfau, polisi ac ymarfer sy'n rheoleiddio technolegau newydd yn adlewyrchu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol yn well.

Mae gwasanaethau digidol wedi'u cynllunio â'r nod o hyrwyddo cyfranogiad pob grŵp a hyrwyddo eu cydraddoldeb a'u hawliau dynol.

## **Nod Strategol 2: Dileu'r rhwystrau i gyfle, fel bod cyfleoedd bywyd pobl yn cael eu trawsnewid**

### **Nod Blaenoriaeth 4**

Mae cludiant cyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig yn hygyrch i bobl anabl a phobl hŷn er mwyn cefnogi eu cynhwysiant economaidd a chymdeithasol

#### **Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn**

- Ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi lle mae comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau cludiant cyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig yn creu rhwystrau rhag cymryd rhan.
- Dylanwadu ar ddeddfau a pholisïau sy'n rheoleiddio cludiant cyhoeddus a'r amgylchedd adeiledig.
- Dylanwadu ar goruchwylio cludiant a chynllunio a chyrrff gosod safonau er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau.
- Cyfarparu a chefnogi unigolion sydd wedi wynebu rhwystrau i geisio iawndal.

#### **Sut y byddwn ni'n gwybod**

- Mae gwelliannau i'r ffordd y caiff gwasanaethau a'r amgylchedd adeiledig eu cynllunio, eu comisiynu a'u darparu, fel eu bod yn gwarchod a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn well.

### **Nod Blaenoriaeth 5**

Mae mynediad i wasanaethau cyhoeddus hanfodol yn cael ei wella ar gyfer grwpiau o dan anfantais fawr

#### **Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn**

- Cynnal un neu ragor o ymchwiliadau i nodi rhwystrau i fynediad y grwpiau hyn i wasanaethau
- Ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi i herio rhwystrau.
- Dylanwadu ar ddeddfau a pholisïau i sicrhau nad ydynt yn creu rhwystrau a/neu mae rhwystrau'n cael eu tynnu.
- Dylanwadu ar oruchwyliaeth iechyd, tai ac addysg a chyrrff gosod sy'n gosod safonau.

- Cyfarparu a chefnogi unigolion i geisio iawndal.

### **Sut y byddwn ni'n gwybod**

- Gostyngiad ystyrllon/diriaethol mewn rhwystrau i Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth gyrchu addysg, iechyd a thai priodol.
- Gostyngiad ystyrllon/diriaethol mewn rhwystrau i bobl anabl wrth gyrchu addysg a thai priodol.
- Gostyngiad ystyrllon/diriaethol mewn rhwystrau i bobl sydd wedi ymfudo i Brydain a cheiswyr lloches wrth gyrchu gwasanaethau iechyd a thai priodol.
- Gostyngiad ystyrllon/diriaethol mewn rhwystrau i bobl drawsryweddol wrth gyrchu gwasanaethau iechyd priodol.
- Mae'r rhesymau y tu ôl i nifer anghymesur o leiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cadw yn y system iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr yn cael eu deall a'u trin.

### **Nod Blaenoriaeth 6**

Mae gan bobl ym Mhrydain fynediad cyfartal i'r farchnad lafur a maent yn cael eu trin yn deg yn y gwaith

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn**

- Ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi i ymestyn mesurau diogelu cyflogaeth i ffyrdd newydd o weithio.
- Gorfodi'r gofyniad adrodd am fwllch cyflog rhwng y rhywiau.
- Dylanwadu ar ddeddfau mewn perthynas ag adrodd am fylchau cyflog.
- Dylanwadu ar gyflwyno a gweithredu'r ddyletswydd orfodol i amddiffyn gweithwyr rhag cael eu haflonyddu.
- Cefnogi datblygu cod ymarfer gorfodol ar atal/ymateb i aflonyddwch rhywiol.
- Cynnal gweithgarwch dylanwadu, cydymffurfio a gorfodi sy'n anelu at hyrwyddo mesurau i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cael mynediad i'r gweithle (er enghraifft, cyfrifoldebau gofalu, rolau anhyblyg, gofynion ynghylch profiad gwaith di-dâl).
- Ymgymryd â gweithgarwch â'r nod o hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth mewn arferion recriwtio.



### **Sut y byddwn ni'n gwybod**

- Mae hawliau pobl sy'n cymryd rhan mewn dulliau newydd o weithio wrth i'r gweithle newid yn cael eu gwarchod yn well ac maen nhw'n medru ceisio iawndal yn well os torrir ar eu hawliau.
- Cymerir mesurau i ddatgelu a mynd i'r afael â bylchau cyflog.
- Mae deddfau a mecanweithiau atebolrwydd yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol
- Rhoddir mesurau ar waith i fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynd i mewn i'r gweithle (e.e. cyfrifoldebau gofalu, rolau anhyblyg, gofynion ynghylch profiad gwaith di-dāl).
- Rhoddir mesurau ar waith i annog mwy o amrywiaeth trwy'r prif lwybrau i mewn i waith (e.e. prentisiaethau).

### **Nod Blaenoriaeth 7**

Mae'r system nawdd cymdeithasol yn deg ac yn gweithredu heb wahaniaethu

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn**

- Ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi i herio rheolau gwahaniaethol a gwneud penderfyniadau unigol.

### **Sut y byddwn ni'n gwybod**

- Caiff rheolau sy'n llywodraethu cymhwysedd ar gyfer nawdd cymdeithasol a phrosesau ar gyfer hawlio nawdd cymdeithasol sydd ag effaith wahaniaethol neu sy'n torri ar hawliau dynol eu herio/newid yn effeithiol.
- Mae rhwystr effeithiol o wahaniaethu yn y broses o wneud penderfyniadau unigol.

## **Nod Strategol 3: Diogelu hawliau pobl yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed**

### **Nod Blaenoriaeth 8**

Rheolau gwell sy'n llywodraethu mynediad i'r ddalffa ac amgylchiadau mewn sefydliadau.

#### **Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn**

- Ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi i herio safonau ac arfer gwael.
- Dylanwadu ar safonau a weithredir gan gyrff goruchwyllo a chyrrff gosod safonau.
- Dylanwadu ar fesurau diogelu mewn deddfwriaeth a pholisi.

#### **Sut y byddwn ni'n gwybod bod ein strategaeth yn effeithiol**

- Mae rheolau sy'n llywodraethu mynediad i ac amodau (megis defnyddio grym, diogelwch ac ati) mewn sefydliadau (gan gynnwys cyfiawnder troseddol, iechyd a gofal cymdeithasol, mewnfudo, ac ati) yn adlewyrchu safonau cydraddoldeb a hawliau dynol.

### **Nod Blaenoriaeth 9**

Mae cyrrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yn cydymffurfio â gofynion cydraddoldeb a hawliau dynol.

#### **Beth fyddwn ni'n ei wneud? Arwydd o'r math o weithgareddau y gallem eu dilyn mewn perthynas â'r Nod Blaenoriaethol hwn**

- Cynnal ymholiad i archwilio effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth arbennig.
- Ymgymryd â gweithgareddau cydymffurfio a gorfodi i herio penderfyniadau amhriodol mewn perthynas â gwasanaethau cymorth arbenigol.
- Ymgymryd â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi mewn perthynas â rheolau ac arferion sy'n tanseilio mynediad i gyfiawnder i'r rhai hynny sydd wedi dioddef trais yn erbyn menywod a merched.
- Dylanwadu ar safonau a weithredir gan gyrff goruchwyllo a chyrrff gosod safonau.

## **Sut y byddwn ni'n gwybod bod ein strategaeth**

- Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau arbenigol priodol yn adlewyrchu anghenion yn well.
- Mae rheolau ac arferion sy'n tanseilio mynediad i gyfiawnder (mewn achosion sifil a throseddol) i'r rhai hynny sydd wedi dioddef trais yn erbyn menywod a merched yn cael eu herio'n effeithiol.

# Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar ein [gwefan](#).

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com). Rydym yn croesawu eich adborth.

## Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com). Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com)

## EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth annibynnol, rhad ac am ddim.

Ffôn: 0808 800 0082

Ffôn testun: 0808 800 0084

Oriau: 09:00 to 19:00 (Llun i Wener); 10:00 to 14:00 (Sadwrn)

Post: FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

[www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Cyhoeddwyd Tachwedd 2018